

# Gweddïo drwy'r nos

*“Un o'r dyddiau hynny aeth allan i'r mynydd i weddïo, a bu ar hyd y nos yn gweddïo ar Dduw.” (adn. 12)*

## Beth am ddarlflen Luc 6:12–16 ac yna myfyrio

Heddiw rydyn ni am ganolbwyntio ar un o roddion eraill ein Harglwydd – y dynion a ddewiswyd ganddo i sefydlu ei Eglwys. Mae Luc yn dweud wrthym ei fod wedi treulio noson gyfan mewn gweddi cyn dewis ei ddisgyblion. Roedd Iesu'n gweddïo am sawl rheswm, ond roedd y noson hon o weddi yn hynod bwysig, nid yn unig oherwydd yr hyn oedd i ddod, ond oherwydd bod dewis deuddeg disgybl yn arwyddocaol ac yn symbolaidd ar lefel genedlaethol. Roedd yn trosglwyddo ei arweiniad ar ddeuddeg llwyth Israel yn symbolaidd i ddynion o'i ddewis. A chrefftwyr a physgotwyr a dynion ar gyrion cymdeithas oedd ei arweinwyr newydd.

Roedd hyn yn weithred herfeiddiol yng ngolwg y gymdeithas, yn dangos bod ganddo'r nod a'r awdurdod i ailadeiladu bywyd pobl Dduw o dan ei arglwyddiaeth. Ar lefel bersonol, mae'n sicr bod y Deuddeg wedi'u syfrdanu (pa un ai bryd hynny neu'n ddiweddarach) wrth sylweddoli'r addewidion am eu statws dyrchafedig yn adferiad Israel yn y dyfodol (gweler Math. 19:28). Allwn ni ddim bod yn siŵr bod y disgyblion yn gwybod ar adeg eu dewis bod noson o weddi wedi bod yn sail i hynny (mae'n amlwg eu bod yn gwybod hynny'n ddiweddarach, neu ni fyddai wedi cael ei gofnodi). Ond os oeddent wedi deall hynny ar y pryd, mae'n siŵr bod gwybod hynny wedi eu porthi ar lefel ddofn.

Ni ddylai ein teimlad ninnau o frait fod yn ddim llai. ‘Yng Nghrist’ rydyn ni hefyd wedi cael ein dewis cyn seilio'r byd (gweler Effes. 1:4); gwrthrych cymundeb cariadus y Tad a'r Mab tragwyddol. Mae ein cenhadaeth ninnau, fel hwythau, yn llifo allan o'i gariad ef; mae bradychu fel yn hanes Jwdas yn digwydd pan fyddwn yn colli cysylltiad â'r fath gariad.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Ioan 15:18–20; 2 Pedr 1:12–18; 3:1–2; 1 Ioan 1:1–4; 4:14–16; Dat. 21:9–14

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa agwedd ar weinidogaeth Iesu mae Pedr yn ei dwyn i gof?
2. Beth ydy tystiolaeth yr apostol Ioan yn ei lythyr cyntaf?

## Gweddï

O Dduw fy Nhad nefol, unwaith eto mae nghalon yn llawenhau o wybod nad cael fy newis yn ôl mympwy wnes i ond gan dy ewyllys di mewn tragwyddoldeb. Mi wnest ti fy nghaisio, fy mhrynu, ac rŵan dw i'n perthyn i ti am byth. Dyna wych! Amen.